# Telerau ac Amodau Graddio

## 1. Cymhwysedd, cofrestru, tocynnau gwesteion a gofynion hygyrchedd

### 1.1 Cymhwysedd

a. Nodir bod myfyrwyr yn gymwys i fynychu seremoni raddio yn seiliedig ar y dyddiad gorffen a gofnodir ar eu cyfer ar y system cofnodion myfyrwyr. Yna, anfonir y rhestr hon o raddedigion posibl at dîm Gweinyddol yr Athrofa i'w gwirio.

b. Mae myfyrwyr sy'n gymwys i fynychu yn derbyn gwahoddiad ac yn cael cofrestru eu bwriad i fod yn bresennol.

c. Er mwyn mynychu'r seremoni rhaid i raddedigion bodloni pob un o'r meini prawf cymhwysedd a nodir isod:

   i. Rhaid cadarnhau eich dyfarniad bythefnos cyn dyddiad y seremoni. Os na chadarnheir eich dyfarniad erbyn hynny, bydd eich cofrestriad yn cael ei ganslo. Yna, dylech gysylltu ag Ede & Ravenscroft i ofyn am ad-daliad neu ohirio eich llogi gŵn ar gyfer seremoni arall.

   ii. Dylech glirio unrhyw ddyled ffioedd dysgu sy'n ddyledus gennych i'r Brifysgol.

d. Ni fydd unrhyw raddedig sy'n cyrraedd y lleoliad graddio gan obeithio mynychu'r seremoni raddio, nad yw wedi bodloni'r meini prawf cymhwysedd uchod, yn cael mynychu'r seremoni.

### 1.2 Cofrestru

a. Anfonir eich e-bost gwahoddiad a'r holl ohebiaeth raddio yn y dyfodol i'r cyfeiriad e-bost personol a gofnodwyd ar eich cofnod myfyriwr.

b. Eich cyfrifoldeb chi yw cadw eich manylion cyswllt (gan gynnwys eich e-bost personol) yn gyfredol. Gallwch wirio pa fanylion sydd gennym ar gofnod ar eich cyfer a'u diwygio os oes angen drwy fewngofnodi i MyTSD.

c. Rhaid i chi gwblhau'r broses gofrestru ar MyTSD erbyn y dyddiad cau a nodir yn eich e-bost gwahoddiad i warantu lle yn y seremoni raddio.

d. Os nad ydych yn gallu mynychu dyddiad y seremoni raddio, gallwch ddewis gohirio i fynychu seremoni yn y dyfodol wrth gwblhau'r broses gofrestru.

e. Os byddwch yn methu â chofrestru erbyn y dyddiad cau penodedig, bydd y Brifysgol yn tybio nad ydych yn dymuno mynychu'r seremoni.

## 1.3 Tocynnau

a. Mae pob myfyriwr yn derbyn dau docyn i westeion. Rhaid gofyn am y tocynnau hyn wrth gwblhau'r broses gofrestru ar MyTSD.

b. Nid oes tâl am docynnau graddio, naill ai ar gyfer y graddedigion, y gwesteion neu docynnau ar gyfer gwesteion ychwanegol.

c. Gallwch ofyn am hyd at 4 tocyn wrth gofrestru drwy MyTSD, mae hyn **yn cynnwys** y ddau docyn gwarantedig.

d. Sylwer, nad ydym yn gallu gwarantu'r tocynnau ychwaneg y gofynnir amdanynt.

e. Byddwch yn derbyn e-bost i'ch cyfeiriad personol wythnos cyn y seremoni yn cadarnhau **cyfanswm nifer** y tocynnau gwesteion y byddwch yn eu derbyn.

f. Os bydd gennym docynnau sbâr byddant yn cael eu dyrannu ar hap. Byddwn yn dyrannu un tocyn ychwanegol ar hap i bob myfyriwr graddedig nes iddynt ddod i ben, neu hyd nes y bydd pawb sydd wedi gofyn am docynnau ychwanegol wedi cael un tocyn ychwanegol. Yna, os oes tocynnau ar gael o hyd, byddwn yn dyrannu un arall ar hap i'r rhai sydd wedi gofyn am fwy. Cynhelir y broses hon hyd nes y bydd yr holl docynnau wedi'u dyrannu neu hyd nes y bodlonir pob cais am docyn gwestai ychwanegol. Mae'n ddrwg gennym nad ydym yn gallu blaenoriaethu unrhyw geisiadau ychwanegol am docynnau o dan unrhyw amgylchiadau.

g. Gall gwesteion nad ydynt yn gallu sicrhau tocynnau wylio'r seremoni ar lif byw drwy wefan y Brifysgol. Bydd seremonïau graddio sy'n digwydd ar gampysau'r Brifysgol yn cynnwys ardaloedd penodol lle gall gwesteion wylio'r llif byw. Cysylltwch â'r tîm graddio am ragor o fanylion.

h. Bydd tocynnau gwesteion ar gael i raddedigion eu casglu ar ddiwrnod y seremoni yn y lleoliad graddio.

i. Ni allwn dderbyn unrhyw un heb docynnau.

## 1.4 Plant

a. Oherwydd natur ffurfiol y digwyddiad, nid yw'r seremonïau graddio yn addas ar gyfer plant o dan 5 oed.

b. Lle mae plant yn mynychu, gofynnwn i chi barchu ffurfioldeb yr achlysur a symud y plant o'r lleoliad os ydynt yn aflonyddgar.

c. Bydd angen tocyn gwestai ar unrhyw blant sy'n mynychu'r seremoni.

d. Rhaid i blant dan 16 oed fod yng nghwmni oedolion (nid y graddedig) bob amser. Sylwer y bydd graddedigion a gwesteion yn eistedd ar wahân.

### 1.5 Gofynion hygyrchedd

a. Os oes gennych chi neu'ch gwesteion unrhyw ofynion hygyrchedd, sicrhewch eich bod yn nodi hyn fel rhan o'r broses gofrestru ar-lein. Os yw'r gofyniad yn codi ar ôl i'r safle gofrestru gau, cysylltwch â'r tîm graddio.

b. Bydd staff yn y Brifysgol yn defnyddio ymdrechion rhesymol i fodloni ceisiadau hygyrchedd y graddedig a'i westeion, ar yr amod y gwneir cais dair wythnos cyn y seremoni.

c. Mae'n bwysig eich bod yn rhoi gwybod i'r Brifysgol ymlaen llaw am unrhyw un sy'n mynychu y gallai fod angen cymorth arnynt os bydd angen gwacau'r adeilad.

d. Bydd y tîm graddio yn cysylltu â chi un i ddwy wythnos cyn y seremoni i ddarparu gwybodaeth fanwl am y trefniadau.

e. Sylwer, y dylech roi gwybod i'r tîm graddio os nad os angen y gofynion hygyrchedd.

f. Os oes angen tocyn ar gyfer gofalwr arnoch chi neu'ch gwestai, cysylltwch â'r tîm graddio dair wythnos cyn y seremoni. Bydd angen darparu tystiolaeth i gefnogi presenoldeb gofalwr cofrestredig. Mae mathau derbyniol o dystiolaeth yn cynnwys:
   - Llythyr dyfarnu lwfans Gweini neu Lwfans Gofalwr
   - Ar gyfer nam ar y golwg, cerdyn cofrestru BD8 neu Dystysgrif Nam ar y Golwg (CVI)
   - Cerdyn Adnabod Cŵn Cymorth Cydnabyddedig
   - Cerdyn Mynediad Hygrededd

### 1.6 Nid oes modd trosglwyddo tocynnau

Ni fydd PCYDDS yn anrhydeddu unrhyw drefniadau anffurfiol a wneir rhwng graddedigion i drosglwyddo eu tocynnau gwesteion i fyfyriwr graddedig arall.

## 2. Y Wisg Academaidd

a) Mae'n ofynnol i chi wisgo gwisg academaidd llawn yn briodol i'r dyfarniad y cewch eich derbyn iddo.

b) Chi sy'n gyfrifol am archebu'r wisg hon eich hun, drwy gyflenwr swyddogol y Brifysgol Ede & Ravenscroft o leiaf 21 diwrnod cyn y seremoni.

c) Ni chaniateir i unrhyw raddedig sy'n gwisgo gwisg academaidd na fernir ei bod yn bodloni gofynion y brifysgol fynychu'r seremoni. Os nad yw'n gwneud hynny, efallai y bydd yn rhaid iddo logi'r wisg academaidd gywir gan y darparwr swyddogol ar y diwrnod am gost ychwanegol.

## 3. Ar y diwrnod

### 3.1 Amseroedd

a. Bydd y graddedigion yn derbyn amserlen fanwl ar gyfer y diwrnod dros e-bost, heb fod yn hwyrach nag wythnos cyn y seremoni. Bydd hyn yn nodi pryd mae angen i raddedigion gyrraedd y lleoliad. Rhaid cadw'n gaeth at yr amseroedd a nodwyd ar gyfer casglu gwisgoedd a thynnu lluniau i sicrhau rheolaeth llyfn ac effeithlon y seremoni.

b. Rhaid i'r graddedigion fod yn eu seddi yn yr awditoriwm **o leiaf** 30 munud cyn amser dechrau'r seremoni.

c. Mae'n bosibl y bydd yn rhaid i raddedigion sy'n cyrraedd yn hwyr eistedd ar wahân i'w grŵp myfyrwyr. Yn ogystal, efallai y byddant yn cael eu gwahodd i groesi'r llwyfan yn hwyrach yn y seremoni na'u cymheiriaid.

d. Er mwyn cynnal uniondeb y seremoni a sicrhau ei bod yn rhedeg yn llyfn, gall uwch staff o fewn y gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Academaidd arfer disgresiwn i wrthod mynediad i bobl sy'n cyrraedd yn hwyr. Mae'r polisi hwn yn helpu i atal tarfu munud olaf ac yn sicrhau bod y digwyddiad yn rhedeg yn ôl yr amserlen. Bydd graddedigion yr effeithir arnynt gan y penderfyniad hwn yn cael cynnig lle yn y seremoni nesaf sydd ar gael.

e. Nid yw'r Brifysgol yn derbyn atebolrwydd am unrhyw gostau a ddaw i ran y graddedigion neu eu gwesteion yn deillio o gyrraedd yn hwyr neu beidio â chymryd rhan yn y seremoni.

f. Rhaid i'r gwesteion fod yn eu seddi yn yr awditoriwm **o leiaf** 15 munud cyn i'r seremoni ddechrau. Mae'n bosibl y gwrthodir mynediad i westeion sy'n cyrraedd ar ôl yr amser hwn, a gellir ailddyrannu eu seddi.

### 3.2 Trefniadau eistedd:

a. Byddwch yn cael sedd sydd wedi'i rhifo yn seiliedig ar y drefn y caiff y dyfarniadau eu darllen a'ch bod yn croesi'r llwyfan. Rhaid i chi aros yn eich sedd ddynodedig drwy gydol y seremoni raddio i sicrhau bod eich enw yn cael ei alw yn y drefn gywir.

b. Bydd gwesteion yn eistedd mewn adran ar wahân i'r graddedigion.

c. Nid oes seddi wedi'u neilltuo i westeion ac maent yn rhydd i eistedd lle bynnag y dymunant ar wahân i'r seddi sydd wedi'u cadw.

### 3.3 Ymddygiad

a. Nid yw PCYDDS yn goddef ymddygiad ymosodol neu fygythiol gan neu tuag at ein graddedigion, eu gwesteion neu unrhyw un sy’n gweithio yn y Brifysgol.

b. Dylai pob ffôn symudol gael eu troi i’r gosodiad tawel yn ystod y seremoni.

c. Croeso i’ch gwesteion dynnu eu lluniau neu eu ffilmiau eu hunain yn ystod y seremoni. Fodd bynnag, ni ddylent rwystro golwg gwesteion eraill o’r seremoni.

d. Mae'n ofynnol i raddedigion aros ar eu heistedd drwy gydol y seremoni, ac eithrio pan fydd aelod o staff yn eu cyfarwyddo i sefyll ar gyfer yr orymdaith neu i gael eu cyflwyno i'r Is-Ganghellor.

e. Mae’n ofynnol i westeion aros ar eu heistedd drwy gydol y seremoni, ac eithrio pan gaiff eu cyfarwyddo i sefyll ar gyfer yr orymdaith.

f. Rhaid i raddedigion sicrhau bod eu gwesteion yn ymwybodol o’r gofynion a nodir yn adran 3.3.

g. Mae’r Brifysgol yn cadw’r hawl yn ôl ein disgresiwn llwyr i wrthod mynediad neu ddiswyddo unrhyw raddedig neu ei westai y credwn ei fod yn torri’r telerau ymddygiad hyn, neu sy’n cyflwyno unrhyw bryderon iechyd, diogelwch neu les i raddedigion, gwesteion neu staff.

### 3.4 Iechyd, diogelwch, tân a diogelwch

a. Rhaid i’r holl raddedigion, gwesteion a staff ddilyn cyfarwyddiadau Iechyd, Diogelwch a Thân y Brifysgol a’r lleoliad sy’n cael eu defnyddio yn ystod y seremonïau graddio.

b. Ar ddechrau pob seremoni, bydd cynrychiolydd o’r Brifysgol yn cyhoeddi beth yw’r gweithdrefnau gwacau os bydd y larwm tân yn seinio.

c. Os byddwch chi neu'ch gwesteion yn gweld unrhyw beth amheus sy'n peri pryder, rhowch wybod i aelod o'r tîm graddio neu'r Tîm Diogelwch mewn unrhyw leoliad.

## 4. Os bydd y brifysgol yn newid neu'n canslo'r digwyddiad

Mae'r brifysgol yn cadw'r hawl i wneud newidiadau i ddyddiad ac amser y seremoni raddio lle bo angen, neu i gyfuno seremonïau os yw nifer y mynychwyr a gadarnhawyd yn is na'r disgwyl. Os bydd hyn yn digwydd, byddwch yn cael gwybod trwy e-bost a bydd unrhyw archebion presennol yn cael eu trosglwyddo i'r seremoni newydd. Ni fydd PCYDDS yn atebol am unrhyw golledion a achosir yn uniongyrchol neu fel arall gan y myfyriwr graddedig neu ei westeion.

## 5. Eich hawlio canslo

a) Os, ar ôl cofrestru, na fyddwch yn gallu mynychu eich seremoni raddio mwyach, rhowch wybod i'r tîm graddio cyn gynted â phosibl, fel y gallwn ganiatáu i eraill fynychu. Os hoffech wneud cais i ohirio tan y tymor seremoni nesaf dylech roi gwybod i'r tîm graddio am hyn.

b) Os nad yw'r person sy'n graddio yn gallu mynychu, ni fydd eu gwesteion yn gymwys i fynychu chwaith.

c) Mae ad-daliadau ar gyfer gwisg academaidd a ffotograffiaeth yn ddarostyngedig i bolisi ad-daliadau Ede & Ravenscroft a rhaid i chi gysylltu â nhw'n uniongyrchol eich hun.

## 6. Diogelu data, ffilmio a ffotograffiaeth

### 6.1 Hysbysiad Preifatrwydd Graddio

Mae'r Hysbysiad Preifatrwydd Graddio yn esbonio sut y bydd y Brifysgol yn casglu, defnyddio a diogelu eich data personol. Mae hyn yn berthnasol i bob myfyriwr PCYDDS a allai fod yn gymwys i dderbyn dyfarniad pa un a ydynt yn mynychu seremoni ai peidio.

### 6.2 A all aelod o'm teulu cysylltu â'r tîm graddio ar fy rhan

Ni all y Brifysgol drafod eich cofnod myfyriwr neu unrhyw fanylion ynghylch eich graddio gydag unrhyw drydydd partïon. Os hoffech i ni drafod eich manylion gyda thrydydd parti, gallwch roi eich caniatâd drwy gysylltu â'r tîm graddio.

### 6.3 Mynychu'r seremoni

Os ydych yn mynychu seremoni graddio, bydd eich enw llawn swyddogol yn cael ei ddarllen allan cyn i chi groesi'r llwyfan. Nid ydym yn gallu defnyddio enwau a ffafrir. Ni ellir newid enwau ar ôl i ddyfarniad gael ei wneud, oni bai eu bod wedi'u newid yn gyfreithiol oherwydd ailbennu rhywedd. Dim ond enwau'r graddedigion hynny sy'n mynychu'r seremoni fydd yn cael eu cyhoeddi.

### 6.4 Llyfryn Graddio

Mae'r Brifysgol yn cynnwys enwau pob un o'r graddedigion (p'un a ydynt yn mynychu'r seremoni raddio ai peidio) a'r dyfarniad a enillwyd yn ei llyfryn graddio sydd ar gael ar-lein drwy wefan PCYDDS. Nid oes gwybodaeth ar ddosbarth y dyfarniad a gafwyd wedi'i chynnwys. Cynhyrchir llyfrynnau Graddio bythefnos cyn y seremoni; os nad ydych yn dymuno i fanylion (enw a chwrs) gael eu cynnwys yn y llyfryn cysylltwch â'r tîm graddio.

### 6.5 Ffilmio a Ffotograffiaeth

Mae PCYDDS yn defnyddio ffotograffydd swyddogol i gymryd lluniau o'r seremonïau graddio. Mae'n bosibl y caiff y lluniau hyn eu defnyddio ar gyfer cyhoeddiadau yn y cyfryngau a hysbysebu. Trwy gofrestru i fynychu eich seremoni raddio, rydych yn rhoi caniatâd i'ch delwedd a delwedd eich gwesteion

gael ei chipio yn y darlleniad byw neu gan ein ffotograffydd swyddogol. Os nad ydych eisiau cael eich cynnwys yn y darllediad hwn, cysylltwch â'r tîm graddio, heb fod yn hwyrach na phythefnos cyn eich seremoni i drafod opsiynau posibl.

7. **Blwyddlyfr y Brifysgol**

Mae gan y Brifysgol gysylltiad â GradFinale i gynhyrchu Blwyddlyfr swyddogol y Brifysgol. Bwriad y Blwyddlyfr yw gwella profiad y myfyrwyr a chefnogi ymgysylltu parhaus â chymuned cyn-fyfyrwyr y Brifysgol.

Gall y Brifysgol hyrwyddo'r Blwyddlyfr i fyfyrwyr cymwys; fodd bynnag, nid yw'r Brifysgol yn rhannu unrhyw ddata personol gyda GradFinale. Mae'n ofynnol i fyfyrwyr sy'n dymuno bod yn rhan o'r Blwyddlyfr gofrestru'n uniongyrchol â GradFinale a nhw yn unig sy'n gyfrifol am gydymffurfio â'r Telerau ac Amodau a bennir gan GradFinale.

8. **Dyledion**

Os oes gynnych ddyled ffioedd dysgu gyda PCYDDS, ni fyddwch yn gallu mynychu eich seremoni raddio ac ni fyddwch yn derbyn eich tystysgrif. Rhaid clirio eich dyled bythefnos cyn y seremoni i gael eich cynnwys yn y llyfryn graddio.

9. **Fisâu**

Efallai y bydd angen i rai myfyrwyr rhyngwladol gwneud cais am fisa i fynychu'r seremoni graddio. Gall y Brifysgol ddarparu llythyr gwahoddiad os oes angen, cysylltwch â'r tîm graddio i ofyn am hyn.

**Terminoleg**

Ystyr **Graddedig** yw myfyriwr sydd wedi cael gwahoddiad i fynychu seremoni graddio.
Ystyr **Gwestai** yw ffrind neu aelod o deulu'r graddedig sy'n mynychu gyda thocyn gwestai.
Ystyr **'ni, ein, y Brifysgol** yw Prifysgol Cymru: Y Drindod Dewi Sant.
Ystyr **'chi', 'eich'** yw'r graddedig.